VARK
visual aural read/write kinesthetic

The VARK Questionnnaire – Welsh Version

Sut byddaf i'n dysgu orau?

Dewiswch yr ateb sy'n egluro beth sydd orau gennych chi, a rhowch gylch o gwmpas y llythyren sydd gyferbyn â'ch ateb. Croeso i chi roi cylch o gwmpas mwy nag un ateb os yw hynny'n addas, a pheidiwch ag ateb cwestiynau sy'n amherthnasol i'ch sefyllfa chi.

1. Rydych yn ceisio helpu rhywun sydd ar ei ffordd i faes awyr, canol y dref neu orsaf drenau. P'run o'r rhain fyddech yn ei wneud?
    a. mynd yno gyda hi
    b. dweud y cyfarwyddiadau wrthi
    c. ysgrifennu'r cyfarwyddiadau (heb fap)
    d. gwneud neu roi map iddi
2. Nid ydych yn siŵr a oes yna ddwy 'n' yn 'dibynnol' ai peidio. Byddech yn:
    a. ceisio gweld y ddau air yn eich meddwl, a phenderfynu wedyn
    b. meddwl sut mae'r ddau air yn swnio, a phenderfynu wedyn
    c. chwilio am y gair mewn geiriadur
    d. ysgrifennu'r gair ar bapur gyda dwy 'n', ac yna gydag un 'n', a phenderfynu wedyn
3. Rydych yn cynllunio gwyliau i griw o'ch ffrindiau. I gael eu barn ar eich cynlluniau, p'run o'r rhain fyddech yn ei wneud?
    a. disgrifio rhai o'r uchafbwyntiau
    b. defnyddio map neu wefan i ddangos y gwahanol lefydd iddynt
    c. rhoi copi printiedig o'r amserlen deithio iddynt
    d. eu ffonio, neu anfon neges destun neu e-bost atynt
4. Rydych am goginio pryd arbennig i'ch teulu. P'run o'r rhain fyddech yn ei wneud?
    a. edrych ar y lluniau yn y llyfr coginio i gael syniadau
    b. defnyddio llyfr coginio lle mae yna rysàit dda
    c. coginio rhywbeth y gwyddoch sut i'w goginio heb gyfarwyddiadau
    d. gofyn i ffrindiau am awgrymiadau
5. Mae criw o ymwelwyr yn awyddus i wybod am barciau neu warchodfeydd natur yn eich ardal. P'run o'r rhain fyddech yn ei wneud?
    a. sgwrsio, neu drefnu sgwrs iddynt am barciau neu warchodfeydd natur
    b. dangos lluniau ar y We, ffotograffau neu lyfrau lluniau iddynt
    c. mynd â hwy i barc neu warchodfa natur a cherdded o gwmpas gyda hwy
    d. rhoi llyfr neu daflenni am barciau neu warchodfeydd natur iddynt
6. Rydych ar fin prynu camera digidol neu ffôn symudol. Ar wahân i'r pris, beth fyddai'n dylanwadu fwyaf ar eich penderfyniad?
    a. cael cyfle i roi cynnig arno, neu ei brofi
    b. darllen manylion am ei nodweddion
    c. dyluniad modern ac mae'n edrych yn ddeniadol
    d. y gwerthwr yn disgrifio ei nodweddion i mi
7. Ceisiwch gofio adeg pan wnaethoch ddysgu sut i wneud rhywbeth newydd. Peidiwch â dewis medr gorfforol e.e. reidio beic. Y ffordd orau y gwnaethoch ddysgu gwneud y peth oedd:
    a. rhywun yn dangos i chi sut i'w wneud
    b. gwrando ar rywun yn egluro, a chael cyfle i ofyn cwestiynau
    c. diagramau a siartiau – cliwiau gweledol
    d. cael cyfarwyddiadau ysgrifenedig e.e. llawlyfr neu lyfr testun

8. Mae gennych broblem gyda'ch pen-glin. Byddai'n well gennych petai'r meddyg yn:
    a. rhoi cyfeiriad gwefan i chi, neu rywbeth i'w ddarllen am y broblem
    b. defnyddio model plastig i ddangos i chi beth sydd o'i le
    c. digrifio beth sydd o'i le
    d. dangos diagram i chi o'r hyn sydd o'i le
9. Rydych yn awyddus i feistroli rhaglen, medr neu gêm newydd ar eich cyfrifiadur. Byddech yn:
    a. darllen y cyfarwyddiadau a gawsoch gyda'r rhaglen newydd
    b. trafod y rhaglen gyda phobl sy'n gwybod amdani
    c. defnyddio'r rheolydd neu'r bysellfwrdd
    d. edrych ar y diagramau yn y llawlyfr perthnasol
10. Rwy'n hoffi gwefannau sydd â
    a. pethau y gallaf glicio arnynt, neu eu newid, neu roi cynnig arnynt
    b. disgrifiadau diddorol, rhestri ac esboniadau
    c. cynllun a nodweddion gweledol, difyr
    d. sianeli sain lle y gallaf wrando ar gerddoriaeth, rhaglenni radio neu gyfweliadau
11. Ar wahân i'r pris, beth fyddai'n dylanwadu fwyaf ar eich penderfyniad i brynu llyfr ffeithiol newydd?
    a. mae'n edrych yn ddeniadol
    b. darllen rhannau ohono'n frysiog
    c. ffrind i chi'n sôn amdano ac yn ei argymell i chi
    d. mae ynddo straeon, profiadau ac enghreifftiau'n codi o fywyd go iawn
12. Rydych yn defnyddio llyfr, crynoddisg neu wefan i ddysgu sut i dynnu lluniau gyda'ch camera digidol newydd. P'run o'r rhain hoffech chi ei gael?
    a. cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod y camera a'i nodweddion
    b. cyfarwyddiadau ysgrifenedig, clir gyda rhestri a phwyntiau bwled ynghylch beth i'w wneud
    c. diagramau o'r camera a beth yw pwrpas pob rhan ohono
    d. digon o enghreifftiau o luniau da a gwael, a sut i wella arnynt
13. Ydi'n well gennych chi athro neu gyflwynydd sy'n defnyddio:
    a. ch. diagramau, siartiau neu graffiau
    b. taflenni, llyfrau neu ddarlleniadau
    c. cwestiwn ac ateb, sgwrs, trafodaeth grŵp, neu siaradwyr gwadd
    d. arddangosiadau, modelau neu sesiynau ymarferol
14. Rydych newydd gwblhau cystadleuaeth neu brawf, a byddech yn hoffi cael sylwadau ar eich perfformiad. Byddech yn dewis:
    a. defnyddio enghreifftiau o'r hyn a wnaethoch
    b. defnyddio disgrifiad ysgrifenedig o'ch canlyniadau
    c. cael barn rhywun fyddai'n mynd drwy'r gwaith gyda chi
    d. defnyddio graffiau'n dangos beth a gyflawnwyd gennych
15. Mae arnoch eisiau dewis bwyd mewn lle bwyta neu gaffi. P'run o'r rhain fyddech yn ei wneud?
    a. dewis rhywbeth a gawsoch yno o'r blaen
    b. gwrando ar y gweinydd, neu ofyn i ffrindiau argymell rhywbeth
    c. dewis o'r disgrifiadau sydd ar y fwydlen
    d. edrych beth mae pobl eraill yn ei fwyta, neu edrych ar luniau o bob saig.
16. Mae disgwyl i chi roi anerchiad mewn cynhadledd neu ddigwyddiad arbennig. P'run o'r rhain fyddech yn ei wneud?
    a. gwneud diagramau neu gael graffiau i egluro pethau
    b. ysgrifennu rhai geiriau allweddol, ac ymarfer dweud eich anerchiad drosodd a throsodd
    c. ysgrifennu'ch anerchiad yn llawn, a'i ddysgu drwy ei ddarllen drosodd a throsodd
    d. casglu llawer o enghreifftiau a straeon i wneud y sgwrs yn real ac ymarferol

VARK
visual aural read/write kinesthetic

The VARK Questionnaire Scoring Chart

Use the following scoring chart to find the VARK category that each of your answers corresponds to. Circle the letters that correspond to your answers

e.g. If you answered b and c for question 3, circle V and R in the question 3 row.

Question	a category	b category	c category	d category
3	K	V	R	A

Scoring Chart

Question	**a** category	**b** category	**c** category	**d** category
1	K	A	R	V
2	V	A	R	K
3	K	V	R	A
4	K	A	V	R
5	A	V	K	R
6	K	R	V	A
7	K	A	V	R
8	R	K	A	V
9	R	A	K	V
10	K	V	R	A
11	V	R	A	K
12	A	R	V	K
13	K	A	R	V
14	K	R	A	V
15	K	A	R	V
16	V	A	R	K

Calculating your scores

Count the number of each of the VARK letters you have circled to get your score for each VARK category.

Total number of **V**s circled =	
Total number of **A**s circled =	
Total number of **R**s circled =	
Total number of **K**s circled =	

Calculating your preferences

Use the VARK spreadsheet (which can be purchased from the www.vark-learn.com web site) to work out your VARK learning preferences.